ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Addysg Cymru

Ionawr 2019

## Y prif ddangosyddion

Fel sy'n wir am nifer o'r systemau addysg gorau yn y byd, mae proses hunanwerthuso gadarn a pharhaus yn caniatáu inni wybod sut mae'r system addysg yng Nghymru yn cyflawni, gan nodi'r pethau sy'n llwyddo a'r blaenoriaethau sydd angen eu gwella.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg wedi cynnal eu hunanwerthusiad eu hunain, gan ystyried argymhellion adolygiad diwethaf y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Roedd y Gyfarwyddiaeth Addysg wedi rhannu eu canfyddiadau â'r Atlantic Rim Collaboratory – arweinwyr ym maes addysg – a chawsant adborth ganddynt. Rhoddodd y Gweinidog Addysg ei sylwadau ar ganlyniadau hynny yn ei diweddariad ar ffurf fideo.


Roedd rhai o'r prif ddangosyddion yn sail i'r hunanwerthusiad hwnnw, ond nid oedd y prif ddangosyddion hynny wedi ysgogi'r gwaith. Mae'n hanfodol nodi **nad** yw rhain yn fesurau sydd ag elfen o risg uchel. Wrth i'r trefniadau gwerthuso a gwella ddatblygu ochr yn ochr â'r gwaith diwygio ehangach, bydd y rhai o'r rhain yn newid dros amser.

I gyd-fynd â'i hadroddiad, mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn cyhoeddi'r dangosyddion hynny, ac mae'r rheini i'w gweld ar y tudalennau canlynol.

OGL © Hawlfraint y Goron, 2019


# 1. Cyfraddau pasio canrannol Lefel 2 cynhwysol

## Canran y dysgwyr 15 oed/Blwyddyn 11 sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 cynhwysol yn ôl statws prydau ysgol am ddim, 2008/09 – 2017/18




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy sefydliadau dyfarnu a chorff casglu a gontractiwyd)

## Canran y dysgwyr ym Mlwyddyn 11 sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 cynhwysol, yn ôl statws prydau ysgol am ddim a rhywedd, 2017/18 – cymwys i gael prydau ysgol am ddim a dim yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru (drwy sefydliadau dyfarnu a chorff casglu a gontractiwyd)

Nodwch: Yn dilyn argymhellion gan adolygiadau annibynnol a'r newidiadau i bolisïau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae nifer o newidiadau sylweddol wedi'u hymgorffori i ddata mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 (CA4) yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n effeithio ar y cymariaethau a wnaed dros gyfnodau o amser. Felly dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau.


Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg mai dim ond y cofnod cyntaf ar gyfer pob dysgwr a gaiff ei gyfrif mewn mesurau perfformiad swyddogol o ganlyniadau haf 2019 ymlaen. Rydym yn disgwyl i hynny eto ddylanwadu ar arferion mewn ysgolion mewn ffyrdd na ellir eu mesur.

## 2. Canlyniad yr arolwg cenedlaethol ar gyfer boddhad rhieni

### Boddhad rhieni ag ysgol gynradd plant





### Boddhad rhieni ag ysgol uwchradd plant



## 3. Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)


**Y rheini ym Mlwyddyn 11 sydd wedi gadael ysgolion yng Nghymru ac y gwyddom nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, Cymru**





Ffynhonnell: Gyrfa Cymru, cyrchfannau dysgwyr o ysgolion yng Nghymru

## 4. Categoreiddio ysgolion 2017


### Nifer yr ysgolion ym mhob categori cymorth




### Nifer yr ysgolion cynradd ym mhob categori cymorth, 2017




**Nifer yr ysgolion uwchradd ym mhob categori cymorth, 2017**



# 5. Mesurau perfformiad ar gyfer dysgu ôl-16

## Cyrchfannau dysgwyr – data sylfaenol – dysgwyr addysg bellach a chweched dosbarth a gadawodd yn 2015/16




Ffynonellau: LLWR, HESA, HMRC

Nodwch: Mae cyrchfan dysgwr yn gysylltiedig â'i weithgaredd yn y flwyddyn academaidd ganlynol. Mae'r mesur yn edrych ar gyfran y dysgwyr sy'n symud ymlaen i:

- cyflogaeth gynaliadwy – rhaid i ddysgwr fod mewn cyflogaeth â thâl drwy PAYE am **o leiaf un diwrnod y mis** am bump o'r chwe mis rhwng Hydref 2015 a Mawrth 2016; neu fod wedi cwblhau ffurflen dreth hunanasesu ar gyfer 2015/16 yn nodi ei fod wedi derbyn incwm drwy hunangyflogaeth
- dysgu cynaliadwy – rhaid i ddysgwr fod wedi bod yn dysgu am **o leiaf un diwrnod ym mhob un o'r chwe** mis rhwng Hydref 2015 a Mawrth 2016, ar yr un lefel neu ar lefel uwch na'r rhaglen sydd wedi'i therfynu
- cyrchfan cadarnhaol cynaliadwy – cyflogaeth gynaliadwy, dysgu cynaliadwy neu gyfuniad o'r ddau.


## Rhaglenni addysg cyffredinol: ennill tri chymhwyster Safon Uwch – data sylfaenol – dysgwyr addysg bellach a chweched dosbarth, 2016/17

| Oedran | Cyfradd cwblhau dwy flynedd | % y dysgwyr sy'n ennill 3 neu fwy o gymwysterau A2(A*-A) | % y dysgwyr sy'n ennill 3 neu fwy o gymwysterau A2 (A*-C) | % y dysgwyr sy'n ennill 3 neu fwy o gymwysterau A2 (A*-E) |
|---|---|---|---|---|
| 16 | 62% | 6% | 35% | 55% |
| 17+ | 44% | 2% | 18% | 34% |
| Pob oedran | 60% | 6% | 33% | 52% |

Ffynonellau: LLWR, HESA, HMRC

## 6. Meintiau dosbarthiadau babanod


### Dosbarthiadau babanod mewn ysgolion cynradd a chanol: dosbarthiadau sydd â 25 neu fwy o ddysgwyr




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru


## 7. Canlyniadau'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

### Y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn y sgôr gymedrig safonedig yn ôl oedran, Blwyddyn 6




Ffynhonnell: Profion Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

### Y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn y sgôr gymedrig safonedig yn ôl oedran, Blwyddyn 9





Ffynhonnell: Profion Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Nodwch: Mae'r canlyniadau'n cael eu safoni bob blwyddyn, felly ni ddangosir y cynnydd dros amser, gan y byddai'r cyfrannau sy'n uwch neu'n is na'r cyfartaledd fwy neu lai yr un fath.

## 8. PISA (2015)


### Sgôr Gwyddoniaeth yng Nghymru o'i chymharu â chyfartaledd OECD, PISA 2006 i 2015




Ffynhonnell: Rhaglen ryngwladol ar gyfer asesu myfyrwyr (PISA)


Nodwch: Mae'r llinell doredig rhwng 2012 a 2015 yn cyfeirio at y cyfnod y cafodd profion eu haddasu i'w defnyddio ar y cyfrifiadur. Mae'r llinell ddu denau drwy bob pwynt data yn cyfeirio at y lwfans ansicrwydd o 95 y cant a amcangyfrifir.

### Sgôr Mathemateg yng Nghymru o'i chymharu â chyfartaledd OECD, PISA 2006 i 2015




Ffynhonnell: Rhaglen ryngwladol ar gyfer asesu myfyrwyr (PISA)

**Sgôr Darllen yng Nghymru o'i chymharu â chyfartaledd OECD, PISA 2006 i 2015**




Ffynhonnell: Rhaglen ryngwladol ar gyfer asesu myfyrwyr (PISA)

## Blaenoriaethau allweddol

Mae cenhadaeth ein cenedl yn datgan y weledigaeth a'r ymrwymiad i ddiwygio addysg hyd at 2021. Fel rhan o'r weledigaeth honno, gan adlewyrchu'r prif ddangosyddion a'r hunanwerthusiad, rydym wedi pennu bod y meysydd canlynol yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol.

1. **Cyhoeddi'r cwricwlwm, meithrin cysylltiadau a chael adborth**
   Eleni, byddwn yn cyhoeddi fersiynau drafft o'r cwricwlwm ynghyd â'r Fframwaith Asesu a Gwerthuso a fydd yn disgrifio'r system gyfan o ran dysgu ac addysgu. Mae'r maes hwn yn un cymhleth iawn, a rhaid inni sicrhau bod yr holl waith yn gydlynol ac yn hawdd ei drin. Rhaid inni hefyd sicrhau bod y newidiadau'n cael eu cyfathrebu'n glir, gan ymateb i unrhyw gwestiynau gan y sector.

2. **Datblygu ffordd newydd o fesur lles dysgwyr a fydd yn sail i'n polisïau**
   Rhoddwyd gwybod y byddem yn cydweithio â phartneriaid, yng Nghymru a'r tu hwnt, ar ddulliau effeithiol o fesur lles dysgwyr. Nid ydym wedi cyrraedd y nod hwnnw eto, ond mae'n fater sydd wedi profi'n anodd ar draws y maes addysg a meysydd eraill o ran cytuno ar y ffordd orau o wneud hynny. Byddwn yn parhau i anelu at gyflawni'r nod hwnnw. Byddwn yn parhau i gasglu a dadansoddi ymchwil newydd ar les, gan gynnwys cydweithio â phartneriaid rhyngwladol i fynd â'r gwaith rhagddi.

3. **Cydweithio â'r proffesiwn i leihau biwrocratiaeth a'r llwyth gwaith**
   Mae'n amlwg bod pwysau presennol y llwyth gwaith yn effeithio ar allu cadw athrawon ac ar y dysgu sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Rydym yn cymryd camau tymor byr (gan gynnwys cynllun peilot ar gyfer rheolwyr busnes ledled Cymru) a chamau hir dymor (diwygio a symleiddio'r cwricwlwm ac atebolrwydd er mwyn blaenoriaethu'r dysgu, yr addysgu a'r hunanwerthuso).

4. **Parhau i wella cyrhaeddiad pawb, gan fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad**
   Rydym yn cydnabod bod rhai o'r newidiadau yn y tymor byr sydd angen eu mesur wedi cael effaith negyddol ar rai o'r mesurau perfformiad allweddol cyfredol (e.e. gwyddoniaeth). Ond, yn y tymor hir, bydd hynny'n golygu bod pob dysgwr yn anelu at gyrraedd lefel sy'n wirioneddol yn fwy buddiol. Dylai'r dull newydd o hunanwerthuso gydnabod y buddion ehangach i'r dysgwyr hynny, yn ogystal â cheisio sicrhau eu bod yn cael yr addysg y maent yn haeddu ei chael.

5. **Parhau i roi sylw i ddysgu proffesiynol, gan roi'r dulliau gweithredu i athrawon fel y gallant wella'r safonau i bawb**
   Mae llwyddiant y cwricwlwm newydd yn dibynnu'n fawr ar gael proffesiwn addysgu hyderus a galluog. Cafodd y Dull Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol ei lansio yn yr hydref. Roedd buddsoddiad o £24 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ymrwymo i hwnnw i gefnogi dysgu proffesiynol dros y 18 mis nesaf, a fydd yn mynd yn uniongyrchol i'r ysgolion. Rydym wedi buddsoddi adnoddau ychwanegol

i leihau'r faich biwrocrataidd ar athrawon, gan benodi rheolwyr busnes ychwanegol i ysgolion.